# Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023

**2023 dsc 2**

*Cyffredinol*

## 20 Dehongli

Yn y Ddeddf hon–

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol ar gyfer ardal yng Nghymru;

mae i "bag siopa" ("*carrier bag*") yr ystyr a roddir ym mharagraff 2 o'r Atodlen;

mae i "cynnyrch plastig" ("*plastic product*") yr ystyr a roddir yn adran 1(2);

mae i "cynnyrch plastig untro gwaharddedig" ("*prohibited single-use plastic product*") yr ystyr a roddir yn adran 2(2);

mae i "defnyddiwr" ("*consumer*") yr ystyr a roddir yn adran 5(11);

ystyr "partneriaeth" ("*partnership*") yw—

(a) partneriaeth o fewn Deddf Partneriaeth 1890 (p. 39), neu

(b) partneriaeth gyfyngedig sydd wedi ei chofrestru o dan Ddeddf Partneriaethau Cyfyngedig 1907 (p. 24);

mae i "plastig" ("*plastic*") yr ystyr a roddir yn adran 1(4);

mae i "swyddog awdurdodedig awdurdod lleol" ("*authorised officer of a local authority*") yr ystyr a roddir yn adran 7(2);

mae i "untro" ("*single-use*"), mewn perthynas â chynnyrch plastig, yr ystyr a roddir yn adran 1(3).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 20 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 22(2)**

**I2** A. 20 mewn grym ar 30.10.2023 gan O.S. 2023/1149, **ergl. 2(q)**

## 21 Rheoliadau

(1) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn arferadwy drwy offeryn statudol.

(2) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn cynnwys pŵer—

(a) i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol;

(b) i wneud darpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed, gan gynnwys darpariaeth sy'n diwygio'r Ddeddf hon.

(3) Ni chaniateir i offeryn statudol a wneir o dan y Ddeddf hon gael ei wneud oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 21 mewn grym ar 7.6.2023, gweler **a. 22(1)**

## 22 Dod i rym

(1) Daw'r adran hon, ac adrannau 3, 4, 17, 21, a 23 i rym ar y diwrnod drannoeth y diwrnod y mae'r Ddeddf hon yn cael y Cydsyniad Brenhinol.

(2) Daw darpariaethau eraill y Ddeddf hon i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol.

(3) Caiff gorchymyn o dan is-adran (2)—

(a) gwneud darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed;

(b) pennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** A. 22 mewn grym ar 7.6.2023, gweler **a. 22(1)**

## 23 Enw byr

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** A. 23 mewn grym ar 7.6.2023, gweler **a. 22(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023, Croes Bennawd: Cyffredinol.